

Adnoddau addoli ar gyfer Gwasanaeth Sul yr Hinsawdd

Cyflwyniad

Bydd y deunydd sy'n cael ei gyflwyno yma yn cynnig adnoddau ar gyfer addoliad Cristnogol ar unrhyw adeg o'r flwyddyn. Cynigir amrywiaeth o opsiynau 'dewis a chymysgu' isod ar gyfer pob rhan o wasanaeth, gan gynnwys litwrgi ar gyfer gwasanaeth Cymundeb.

Fe'ch anogir yn arbennig i gynnal gwasanaeth Sul yr Hinsawdd yn eich cynulleidfa cyn 5 Medi 2021. Bydd gwasanaeth cenedlaethol yn cael ei ddarlledu ar brynhawn y 5 Medi.

Cofrestrwch eich gwasanaeth yma: www.climatesunday.org/register

Bydd hyn yn helpu i ddangos ymrwymiad a llais unedig eglwysi a chymunedau ffydd wrth weddio a galw am weithredu ar newid yn yr hinsawdd.

Mae'r adnodd hwn wedi'i ysgrifennu a'i lunio gan y Parch David Coleman, Gweinidog Categori Arbennig URC a Chaplan Amgylcheddol i EcoGynulleidfa'r Alban, ar ran Tasglu Amgylcheddol yr URC. Dysgwch fwy yma: www.urc.org.uk/caring-for-creation

Addoliad, Ymrwymo a Chodi Llais

Fel rhan o'ch gwasanaeth Sul yr Hinsawdd, fe'ch gwahoddir i:

- ◆ **Ymrwymo:** Ymrwymwch i'ch camau nesaf fel cymuned eglwys leol i leihau eich allyriadau nwyon tŷ gwydr eich hun. Y ffordd sy'n cael

ei hargymell i wneud hyn yw dod yn rhan o raglen megis Eco-Eglwys (Cymru a Lloegr) neu Eco-Gynulleidfa yr Alban.

- ◆ **Codi Llais:** Llofnodwch ddatganiad 'The Time is Now' Clymblaid yr Hinsawdd fel eglwys, gan alw ar lywodraeth y DU i weithredu er mwyn cael dyfodol iachach, gwyrddach a thecach. Ewch i thetimeisnow.uk am fanylion.

Os oes angen gwneud ymrwymiad neu lofnodi dogfen, yna gellid dod â hyn i'r cysegr ar-lein neu wyneb yn wyneb gyda'r Ysgrythurau, a'i gysegru fel rhan o'r offrwm, neu cyn y Cymundeb yn y gwasanaeth.

Emynau a chaneuon

Dewiswch emynau sy'n pwysleisio ein partneriaeth gyda'r greadigaeth, yn hytrach nag ecsbloetio'r Ddaear. Byddwch yn ofalus wrth ddewis deunydd o'r adran berthnasol yn *Caneuon Ffydd* ('Duw'r Creawdwr a'r Cynhaliwr'), gan ystyried cyd-destun yr argyfwng hinsawdd rydyn ni'n ei brofi erbyn hyn.

Cyhoeddwyd emyn Cymraeg newydd ar gyfer Sul yr Hinsawdd, 'O Dduw, gwerthfawrogwn ein byd' - <https://www.cytun.co.uk/hafan/emyn-ar-gyfer-sul-yr-hinsawdd/>

Am awgrymiadau pellach (emynau Saesneg), gweler

- ◆ Adnoddau Sul yr Hinsawdd:
www.climatesunday.org/serviceresources
- ◆ 'Friends and troublemakers' – emynau gwreiddiol i alawon cyfarwydd, sydd ar gael ar wefan Eco-Gynulleidfa'r Alban:
www.ecocongregationscotland.org/uncategorized/friends-andtroublemakers-recycled-hymns-for-immediate-use/

Cynnwys

Galwad i addoli	4
Gweddïau o gyffes.....	5
Sicrwydd o Faddeuant.....	10
Darlleniadau o'r Hen Destament	11
Darlleniadau o'r Efengylau	11
Pregeth neu brif fyfyrddod arall	11
Gweddïau o Eiriolaeth	11
Gweddi'r Arglwydd.....	19
Casgliad	Gwall! Dalennod heb ei diffinio.
Cymun Bendigaid / Gweddi'r Arglwydd.....	20
Rhyddhau a bendithio.....	30
Gadael.....	31

Trefn y gwasanaeth

Galwad i addoli

[Ar gyfer gwasanaeth Sul yr Hinsawdd](#)

Yn y dechreuad, a heddiw,
mae Duw yn ffurfio harddwch o anhrefn.

Heddiw, rydym yn ymateb mewn mawl!

Yn y dechreuad, a heddiw, mae Duw yn siarad.

Heddiw, rydym yn codi llais.

O'r dechreuad, a phob dydd,
mae Duw yn ein cynnal â ffyddlondeb.

Heddiw, rydym yn gwneud ein hymrwymiad.

[Ar gyfer gwasanaeth Sul yr Hinsawdd neu unrhyw bryd](#)

Drwy gynhesrwydd yr haul

a bendith y glaw

[\[Eseia 45:8\]](#)

Gyda phopeth sydd ag anadl

Rydym yn rhoi gogoniant i Dduw!

[\[Salm 150:6\]](#)

Fel y mae'r haul a'r lleuad

yn siapio'r dydd a'r nos

[\[Genesis 1:16\]](#)

Felly rydym ni, blant y ddaear

yn trin ac yn gofalu am ble rydym yn byw

[\[Genesis 1:26\]](#)

Trwy dân, trwy ddŵr

rydym yn mynd ar ein ffordd:

Dewch â lluniaeth i ni heddiw!

[\[Salm 66:11\]](#)

neu

Ceisiwch gyngor gan y bwystfilod

A byddant yn eich goleuo

Gan yr adar yn yr awyr

A byddan nhw'n dangos i chi

Siaradwch â'r Ddaear

A bydd y Ddaear yn eich dysgu;

Oherwydd pa un o'r rhain nad yw'n gwybod?

Mae bywyd i gyd yn llaw Duw!

Emyn neu gân

Gweddïau o eiriolaeth

Ar gyfer gwasanaeth Sul yr Hinsawdd

Dduw'r cynhaliwr,

heddiw, mae'r cerrig yn gweiddi

gan i ddisgyblion yr Arglwydd gadw yn ddistaw.

Heddiw, mae cylchoedd y tymhorau

sy'n dweud am dy ffyddlondeb

wedi eu tawelu a'u mygu.

Heddiw, mae'r union wybren sy'n adrodd am dy ogoniant,

y rhewlifoedd sy'n adlewyrchu ac yn amddiffyn

a'r moroedd a roddaist yn eu lle

i gyd mewn cythrwfl poenus

yn ysu am gael dy foli.

Ac eto rydym wedi cloi allan y lleisiau

a gyda nhw y lleisiau dynol

y sawl sy'n cael eu brifo'n gyntaf ac yn waethaf
gan argyfyngau, nid yn unig yn yr hinsawdd
ond yr anghyfiawnder y mae ein cymdeithasau dynol
wedi dod i ddibynnu arno.

Oherwydd yr hyn y mae'r cyfoethog yn ei wneud i'r tlawd
Felly y mae ein rhywogaeth yn ei wneud i'r Ddaear gyfan.

Rydym yn cydnabod ein rhan, a'n distawrwydd
er ein bod yn gwybod y gwir,
yn y dewisiadau hyn
a dewisiadau mwy pechadurus y presennol.

Gwastraffu bwyd
Colli bioamrywiaeth
Llygredd plastig
Datgoedwigo
Llygredd aer
Camreoli amaethyddiaeth a ffermio gor-ddwys
Cynhesu byd-eang o danwydd ffosil
Capiau iâ yn toddi
Ansicrwydd bwyd a dŵr.

Dduw cynhaliol,
fel yng Nghrist
yr wyt yn dod â thrugaredd, egni a thosturi
i fywyd y Ddaear
yn codi llais ble bynnag y mae creaduriaid allan o'u lle neu ar goll

Gweidda gyda'r cerrig,
galw ni i gyfrif,
dangos i ni'r pŵer sydd gennym
a sut rydym yn parhau i'w gamddefnyddio.

Rhyddha ni o gyfrifoldeb dychmygol
i gadw pethau fel y buont
A dangos i ni, gydag egni maddeuant,
llwybr iachâd
i'r nefoedd a'r ddaear.

Boed i'n moliant ymuno â'r côr
o bob dim sydd ag anadl
gyda gwaedd uchel o her
oherwydd dy bobl di ydym.

Dy bobl a faddeuwyd,
dy bobl sy'n ymrwymo
i iachâd y Ddaear
drwy ras Duw yn unig.

Amen.

I'w ddefnyddio ar unrhyw adeg

Galwad i Gymodi

Er gwaethaf ein trachwant a'n traha;
Er gwaethaf ein difaterwch a'n hanobaith
Er gwaethaf dewis chwerwder
a chasineb o'r Corff

Mae Duw yn dal i gymeradwyo tosturi,
Yn cynnig iachâd, heddwch, bywyd newydd

Mae Duw yn maddau, yng Nghrist,
wedi'i ymgnawdoli yn y Ddaear,
rydym yn ail-gysylltu, mewn llawenydd.

Gadewch inni gyfaddef ein pechodau i Dduw:
a rhoi tu cefn i ni,
yr hyn nad oes angen i ni ei gario mwyach,
y gall gobaith a gras Duw
wella'r hyn sydd wedi torri ym myd Duw.

Gweddi Unsain o Gyffes

**Dduw pob cnawd,
y mae dy feddwl yn esblygu mewn rhyfeddod;**

**Yn dy gariad mawr,
rwyf yn gosod o'n blaenau
arwyddion rhybudd
a ddylai newid ein llwybr marwol
a'n cyfeirio at ffydd a bywyd cyfrifol.**

**Ar ein pennau'n hunain ac eto, *drwy ras*, gyda'n gilydd
rydym yn cydnabod i ni
ar ein pennau'n hunain, ac eto, *yn llawer gwaeth*, gyda'n gilydd,**

**ddewis anwybodaeth a gwadu,
anghyfiawnder drwy ymdawelu,
petruso yn lle doethineb,
anffyddlondeb drwy gadw eraill draw;**

**Rydym wedi pennu
todi dynol drwy drachwant a chyfoeth,
camdrin y Ddaear a'n cyd-greaduriaid
drwy'r hyn yr ydym yn ei alw yn ddoethineb,
neu fel dewisiadau nad ydynt yn perthyn i ni i'w gwneud.**

**Rydym wedi diystyru
anghenion cartref cyffredin bywyd;
ac yn hwyllo i gyfeiriad trychineb.**

**Bydd drugarog wrthym, O Dduw,
Rhyddha ni i ddewis bywyd, a byw cyfiawnder
fel nad ydym yn cael ein llychwino gan ofn am yfory
ond – wedi derbyn maddeuant ac yn maddau –
ein bod yn ddigon dewr i ddod o hyd yn llawen i'n rhan ni heddiw
wedi'n cynnal gan obaith a rhyfeddod
gyda'n cyfaill,
Yr Arglwydd Iesu Grist.**

[neu](#)

[Gweddi o Ddynesu a Chyffesu](#)

Dduw, Grist ac Ysbryd,

Partneriaeth y creu:

Cludwr harddwch o anhrefn

Yn croesawu pawb sydd ar goll

Ar ein pen ein hunain a gyda'n gilydd

deuwn â bywyd i'w drawsnewid.

Mae'r ddaear yn gweiddi yn ein herbyn; felly
maddau i'n rhywogaeth:

Maddau!

Maddau i bob un, maddau i bawb!

A lle mae difrod wedi ei wneud
gan fy newis *i* neu fy esgeulustod *i*
o'r hyn rwy't *ti* wedi'i wneud ac rwy't ti'n ei garu:

agor ffenestr o iachâd
fel nad ydym, gan gadw mewn cof maint y newid,
na fyddwn yn cael ein llethu gan anobaith
ond yn hytrach ein grymuso gan obaith
ein hannog gan drugaredd
a'n bywiogi gan ras tu hwnt i'n haeddiant.

Gellir cadw cyfnod o dawelwch

Sicrwydd o Faddeuant

Mae Duw yn ein herio, mae Duw yn ein hannog.
Mae Duw yn ein hwynebu â'r gwirionedd, ac mae Duw yn ein derbyn.
Mae Duw yn gweithio rhyfeddodau yn ein plith ac yn rhoi llygaid,
calonnau ac eneidiau i ni i drysori bywyd.

Mae Duw yn maddau i ni:

oherwydd Crist yw'r Ffordd

– pan welwn ddim byd ond diffeithwch –

yno, i breswyllo, gartref gyda bywyd yn ei gyflawnder.

Diolch i Dduw.

Amen.

neu

Datganiad o Faddeuant

Dduw y Ddaear dda, sy'n cynnig maddeuant
cyn i'r weithred gael ei chwblhau.

Dangos i ni ein lle a'n pwrpas,
ni, greaduriaid pridd a chariad
drwy gyfeillgarwch Crist
sy'n rhannu cnawd â phob bywyd.

Amen, Amen, wrth i ti alw.

Darlleniad o'r Hen Destament

Gweler <https://www.climatesunday.org/service-resources?lang=cy> am awgrymiadau

Emyn neu gân

Darlleniad o'r Efengylau

Gweler <https://www.climatesunday.org/service-resources?lang=cy> am awgrymiadau

Pregeth neu brif fyfyrdd arall

Gweler <https://www.climatesunday.org/service-resources?lang=cy> am awgrymiadau a deunyddiau

Emyn neu gân

Gweddïau o Eiriolaeth

Ar gyfer Sul yr Hinsawdd

Gweddi Ragarweiniol

Dduw y cynhaliwr,
yn y flwyddyn hon o helbul a her
a ninnau wedi dysgu'n barod
fod mwy o newid yn bosibl

nag yr oeddem eisiau ymdopi ag ef,
gofynnwn am ryddid dy lawenydd
bob amser a dan bob amgylchiad
a diolchwn i ti am gydsefyll gyda ni
hyd yn oed cyn inni amgyffred y tasgau sydd o'n blaenau.

Cryfha ni i godi llais yn eofn

fel y cawn ein clywed:

Chwardd gyda ni

wrth i ni ailasesu'r hyn yr oeddem yn ei gredu ei fod yn ddoeth;

i fwynhau'r gostyngeddwydd,

y brys

a'r balchder yn dy gyfeillgarwch;

oherwydd mae'r cyfan yr oeddem yn ei wybod wedi newid

heblaw am dy ffyddlondeb

a'th gariad a fynegwyd mewn cnawd

dros y Ddaear.

[Gweddi dros COP \(Cynhadledd y Pleidiau'r Cenhedloedd Unedig\)](#)

Dduw y cynhaliwr,

ym mis Tachwedd, ar gost enfawr a gyda brys mawr

bydd arweinwyr ein rhywogaeth

a'r sawl sy'n pryderu am eu cartref cyffredin

yn ymgynnull yn Glasgow,

felly gofynnwn am dy bresenoldeb croesawgar a chadarnhaol

yn y cynullïadau niferus o gasgliadau
sy'n rhan o'r achlysur hwnnw.

Rho i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau
ryddid rhag beichiau gorffennol
sydd wedi ein gwthio i ymyl y dibyn hwn.

Rho weledigaeth newydd o'th gynnig i iacháu
sy'n fwy na'r gorwel tywyll o'r hyn y gallai ei gostio.

Tyrd i ddadlau ac ymgodymu â phwerau a thywysogaethau
buddioldeb ac anobaith.

Agor bob clust ddynol i leisiau'r Ddaear,
a lleisiau chwïorydd a brodyr sydd eisoes yn boenus ddiodef.

Achub ni rhag anobaith hunanfodddhad
a'r temtasiwn gwenwynig
pan fydd yr ymwelwyr wedi gadael
i gofleidio 'busnes fel arfer'
oherwydd mae'r 'normal' hwnnw wedi mynd.

A'n hunig ddyfodol
fydd mewn bod yn effro,
ymddiriedaeth,
gobaith,
ie, llawenydd wrth i ni fyw dy gariad at y Ddaear rydyn ni'n rhan ohono
drwy dy Air a ddaeth yn gnawd
lesu, ein cyfaill.

Haleliwia beth bynnag!

Amen

I'w ddefnyddio ar unrhyw adeg

Arglwydd, gweddiwn yng nghanol dy fyd
lle nad ydym yn estron, er y gallai ymddangos felly;

Rydym yn chwilio am dy weledigaeth gariadus o'r greadigaeth a brofwn;
Wedi'n hysbrydoli i ryfeddu at y bydysawd eang;
yn derbyn y dasg ddynol o ofalu am y Ddaear;
yr ydym ni, a phob bywyd, wedi ein llunio ohoni.

Drwy'r fath harddwch, mae Duw yn clywed gweddi.

Diolch i Dduw.

Gan mai cyfiawnder a thegwch yw pileri'r greadigaeth, *[Salm 89:14]*
rydym yn cydnabod sut mae tlodi, rhagfarn ac anghydraddoldeb
yn cwtogi bywydau pobl ac yn difwyno'r tir ffrwythlon;

Nid ydym bellach yn gwrthsefyll y cysylltiad
hollbresennol yn yr Ysgrythur
rhwng anghyfiawnder a halogi'r Ddaear.

Cydnabyddwn na all y Ddaear, o gael ei cham-drin, ofalu mwyach
yn y ffordd rydym wedi dibynnu arni *[Rhufeiniaid 8:22]*

Rhannwn gyda thi mewn tristwch
newyddion drwg a glywsom heddiw ...
[Tawelwch neu fanylion]...

A rhannu hefyd mewn diolchgarwch,
y cyfan sydd wedi rhoi gobaith i ni, neu hyd yn oed i'n cymydog.
... *[Tawelwch neu fanylion]*...

Drwy harddwch o'r fath, mae Duw yn clywed gweddi.

Diolch i Dduw.

Gweddiwn dros ein Teulu mawr, yr Eglwys *[Rhufeiniaid 8:29]*

dy rodd o obaith i'r Ddaear. *[Mathew 5:14]*

Gofynnwn am bersbectif y tu hwnt i raniadau;

am ryddid rhag y dyhead

i reoli, fel y mae ymerodraethau'n rheoli;

[Mathew 20:25, 1 Pedr 5:3, Datguddiad 20:6]

Boed i bob ymgynnull lleol yn dy enw *[Matthew 18:20]*

fod yn fan lle ceir croeso a diogelwch,

gan ddathlu sancteiddrwydd y tir

yr ydym yn cyfarfod arno, *[Exodus 3:5, Josua 5:15, Actau 7:33]*

a gwerth ffydd, y tu hwnt i fesur,

mewn undod â Christ.

Drwy'r fath harddwch, mae Duw yn clywed gweddi.

Diolch i Dduw.

Rydym yn gweddiö am ddoniau gweledigaeth a phroffwydoliaeth

lle bynnag y bydd yn rhyngu dy fodd i'w hanfon.

Gan lefaru'r gwirionedd i'r sawl sydd mewn grym,

a chefnogi'r rhai sy'n gwneud hynny.

Bendithia ein dysgu, a thrysor y profiad

sy'n arwain yr Eglwys.

Cynhyrfa dy bobl a helpa ni i brofi'r ysbrydion,
i ddehongli'n ddoethineb leisiau niferus ein dydd,
yn effro i lais proffwydol y Ddaear
y cerrig sy'n gweiddi yn uchel.

[1 Ioan 4:1]

[Luc 19:40]

Rho ddiffyg amynedd i ni, ac eto dyfalbarhad
ar gyfer wybren newydd a phridd newydd
wrth i ni fyw yn y cyfamser,
wedi ein chwythu ymlaen gan dy Ysbryd.

[Datguddiad 21:1]

[Ioan 3:8]

Drwy'r fath harddwch, mae Duw yn clywed gweddi.

Diolch i Dduw.

Gweddiwn ac agorwn i ti
anawsterau dyddiol
y gymuned hon yr wyt wedi ei galw i'th foli ac i wasanaethu;
y gwrthdaro, wrth inni eu profi,
y weledigaeth honno sy'n cymryd ei lle yn fendigedig
y cwestiynau sy'n ysgwyd ac yn atgyfnerthu ein ffydd.

Ein breuder, a'n breguster,
sy'n allweddol i'n cryfder ynot ti.

Yr amrywiaeth o roddion,
a'r wybodaeth am ben draw ein gallu
wrth i ni wylo a llawenhau
gyda'r rhai sy'n gwneud yr un fath.

Rydym yn diolch am ddisgyblaethau gweddi
a rhyddid ysbrydolrwydd,
i ymwreiddio a dwyn ffrwyth,

ac eto i oroesi stormydd sydd o'n blaenau
fel pobl i Dduw
er mwyn *pob* creadur

Drwy'r fath harddwch, mae Duw yn clywed gweddi.

Diolch i Dduw.

A gan mai dim ond hyn a hyn y gall geiriau dynol eu gwneud,
fe ymdawelwn...

Drwy'r fath harddwch mae Duw yn clywed gweddi.

Diolch i Dduw.

Yn enw yr un a ddaeth, sy'n dod
ac sy'n parhau i ddod, Crist yr Arglwydd.

Amen

[neu](#)

Fframwaith ar gyfer gweddïau o eiriolaeth

Gadewch i ni weddio gyda Christ:

Dduw, sy'n ein llunio ni gyda'r ddaear,

Dduw, sy'n ein rhoi ni i'r byd,

Dduw, Duw-gyda-ni yn ein hymdrechion:

Clyw ni, saf gyda ni wrth i ni ddod â'n hofnau a'n hanghenion

A cherdded, dal dwylo, cynggori, annog.

Dros y byd

Beth ydyn ni wedi'i glywed yn y newyddion yr wythnos hon?

Pwy sydd mewn angen a phwy ddylai ddiolch?

Pa mor bell ydyn ni wedi cyrraedd, a ble wnaethon ni faglu?

A beth sy'n ymddangos yn hollol y tu hwnt i ni?

Gwrandewch am lais y Ddaear: beth mae'n ei ddweud?

Cofiwn ein cymdogion, o ba rywogaeth bynnag.

Gweddiwn dros ein gelynon, a'r rhai yr ydym yn eu hofni.

A gweddiwn am dangnefedd drwy'r holl greadigaeth.

Clyw ni, saf gyda ni wrth i ni ddod â'n hofnau a'n hanghenion

A cherdded, dal dwylo, cynghori, annog.

Dros yr eglwys

Rhowch ddiolch am y ffyddlondeb, sy'n cynnal gweddi.

Byddwch yn agored am raniadau sy'n parhau, gan gynnwys rhai lleol.

Ceisiwn integreiddio pryder amgylcheddol yn well yn ein bywyd a'n gwaith.

A cheisiwn fod yn agored i'r llawenydd o gyfeillach ddyfnach gyda'r cread cyfan

Clyw ni, saf gyda ni wrth i ni ddod â'n hofnau a'n hanghenion

A cherdded, dal dwylo, cynghori, annog.

Drosom ni'n hunain

Mewn tawelwch:

cyflwynwch i Dduw yr hyn nad oes angen i neb arall ei glywed,

nid i Dduw 'glywed'

ond i atgoffa ein hunain bod Duw yn gwybod ac yn deall.

Gweddiwch dros y rhai yr ydym yn cyd-weddio â nhw,

gan gydnabod a pharchu'r hyn na allant ei rannu gyda ni.

Chwiliwch am gefnogaeth a dyfalbarhad,

a rhyw arwydd o gynhالياeth pan fyddwn yn cael pethau'n iawn.

Gweddiwch am gael bod yn 'ddiamynedd' –

nid derbyn pethau 'fel y maen nhw'.

A gweddiwch dros dangnefedd yn ein calon, a llawenydd llawnach Crist.

Clyw ni, saf gyda ni wrth i ni ddod â'n hofnau a'n hanghenion

A cherdded, dal dwylo, cynghori, annog. Amen.

Gweddi'r Arglwydd

Naill ai eich dewis eiriau lleol, neu'r myfyrdod hwn ar weddi'r Arglwydd, y gellid ei ddefnyddio hefyd mewn grŵp astudio/gweithdy ond nid yw'n cael ei gyflwyno fel dewis 'arferol'.

Riant y Pridd a'r Awyr

Boed i'n mawl ddatgelu dy harddwch

Boed i'th gariad cwmpasol ddwyn ffrwyth

Wrth i haul, glaw ac eira rymuso'r greadigaeth

Darpara ar gyfer bywyd, y cyfan sy'n cynnal,

Rhyddha ni rhag haerllugrwydd ystyfnig, a'r cyfan a ddaw yn ei sgîl:

er mwyn i ni alluogi newid i'n cyd-greaduriaid

Achub ni yng nghanol yr hyn y mae ein rhywogaeth ni wedi'i achosi:

gwared bywyd rhag y drwg

Oherwydd mae'r tymhorau, y cylchoedd a grym bywyd yn eiddo i ti

Yn awr a thrwy bob terfyn.

Boed felly!

Offrwm

Gweddi os ydych chi'n llofnodi neu'n cyflwyno ymrwymadau

Bendithia i ni yr awyr a osodaist uwch ein pennau,

yr anadl y mae'r coed wedi'i roi i ni,

dŵr pob bywyd ar y Ddaear,

y mwynau sy'n ein ffurfio

Bendithia i ni yr ymrwymiad hwn

[soniwch am beth sy'n cael ei gynnig]

ein llwyddiannau a'n methiannau,

ein rhwystrau a'n cymhellion.

Oherwydd er na fyddwn ni ein hunain yn trwsio nac yn achub y byd
gyda llawenydd, rydym yn derbyn ein lle a'n diben
yng ngofal cydweithredol Duw ei hun / Dy ofal cydweithredol Di dy hun,

Boed i bopeth a gynigir
y cyfan ynghlwm â'r weddi
fod yn hadau a blennir
i ddwyn llawer o ffrwyth.

Amen

Cymun Bendigaid / Swper yr Arglwydd

Litwrgi wedi'i ddatblygu o bedwaredd Drefn y Cymun Bendigaid, URC Worship
Book 2003

Y Gwahoddiad

Clywch eiriau graslon
Iesu Grist, ein cyfaill;

Dewch ata i,
bawb sy'n flinedig ac yn llwythog,
ac fe roddaf i orffwysra i chi.

neu

Myfi yw bara'r bywyd.
Ni bydd eisiau bwyd byth ar y sawl sy'n dod ataf i,
ac ni bydd syched byth ar y sawl sy'n credu ynof fi.

neu

Ni fwriaf allan byth mo'r sawl sy'n dod ataf fi.

neu

Edrychwch ar yr adar
Dysgwch o'r coed
Peidiwch â phoeni am yfory
Edifarhewch, mae Teyrnas nefoedd wrth law

neu

Gwahoddiad at y Bwrdd

Os cewch fendith yn yr ymgais, os nad trwy gwblhau
iacháu y Ddaear,
y mae Crist yn ymgnawdoledig ynddo, fel yr ydym ni,
dewch at eich gilydd o amgylch y bwrdd hwn
i fod yn waith sydd ar y gweill gan Dduw
yn canfod ffrindiau ymhlith ffrindiau Iesu
a maeth mewn bara a gwin
drwy ddwylo dynol, o'r ddaear ei hun,
yr ydym yn bwydo arni;
sanctaidd hyd yma, gan fod Iesu,
yn unol â dewis Duw, o wneuthuriad felly.

Dywedodd Iesu: pan fyddwch chi'n dathlu,
gwahoddwch y rhai nad ydynt yn gallu cwblhau
yr hyn rydych chi'n ei ddechrau:
oherwydd mae'r cwblhau yn nwylo Duw yn unig.
Dathlwch nawr gyda phwy bynnag fydd yn ymuno â chi:
gwnewch amser nawr, tra gallwch chi, ar gyfer y wledd.

[Y Tangnefedd \[yma neu ar ôl y Cymundeb\]](#)

Boed i dangnefedd Iesu Grist
fod gyda chi oll.

Tangnefedd Crist, ledled y Ddaear.

[Hanes sefydlu Swper yr Arglwydd](#)

Rydym yn derbyn y pethau hyn gan ein bod yn rhan o Gorff Crist.
Ein cyflwr toredig yw cyflwr toredig y Ddaear
y mae Duw yng Nghrist, mewn cariad, yn dewis ei rannu a'i ail-lunio.

Ar y noson y cafodd ei fradychu,
dathlodd yr Arglwydd Iesu wledd o daerineb ac o ryddid:
cymerodd Iesu dorth o fara, ac wedi rhoi diolch,
fe'i torrodd, a dweud,
'Dyma fy nghorff, i chi.
Gwnewch hyn i gofio amdanaf.'
Yn yr un modd cymerodd Iesu y cwpan hefyd,
ar ôl swper, gan ddweud,
'Y cwpan hwn yw'r cyfamod newydd yn fy ngwaed i.
Gwnewch hyn, bob tro yr yfwch ef,
i gofio amdanaf.'

[Cymryd y Bara a'r Gwin](#)

Ynghyd â'n cyfaill ffyddlon Iesu Grist,
cymerwn y bara hwn a'r cwpan hwn,
a rhoddwn ddiolch i Dduw.

[Y Diolchgarwch](#)

Dyrchafwch eich calonau.

Fe'u dyrchafwn i Dduw

Gadewch inni ddiolch i'n cynhaliwr
Mae'n iawn i ni roi ein diolch a'n mawl.

Gyda llawenydd rydym yn rhoi diolch a mawl i ti,
Hollalluog Dduw, ffynnon cariad, anadl bywyd,

Ffyddlon a chreadigol
mewn ymateb i ryddid y greadigaeth
gan ddwyn harddwch o anhrefn,
a bywyd y tu hwnt i farwolaeth gobaith.

Gan gamu i mewn i rannu cost
pob dim sy'n niweidio'r Ddaear,

dathlwn ein galwedigaeth
fel creaduriaid o hyblygrwydd dwyfol,
i reoli ac i goleddu
popeth sy'n rhannu ein bod

a galwn allan
gyda'r sawl sy'n ein haddysgu:
bwystfilod ac adar, a choed a chefnforoedd
“Mae bywyd oll yn llaw Duw”

[\[Job 12:8 yml\]](#)

[\[Luc 21:30\]](#)

Rydym yn ymhyfrydu dy fod yn caru'r Ddaear
fel bod Crist yn gnawd
ac mae ymddiriedaeth yn troi ebargofiant
yn fywyd penagored.

[\[Ioan 3.16 yml\]](#)

Ac yn anad dim rhoddwn ddiolch iddo:
Gael ei gario, ei eni a'i faethu,

ddysgu a llafurio,
bwyta, yfed, canu, rhannu,
ei groesawu a'i wrthod;
Gan goleddu'r hyn ydyn ni,
rhannodd ei fywyd a rhoddodd ei farwolaeth
gyda ni, drosom ni, am byth,
drwy'r Ysbryd anorchfygol:
y Crist byw, y ffordd atgyfodedig
yn amser parod Duw.
Ac mae cwmni da Duw,
o bob man, pobl, creaduriaid
yn eu ffordd eu hunain, yn ymuno â'r côr gyda'r angylion:

[Ioan 3:8]

[Ioan 14:6]

**Sanctaid, sanctaid, sanctaid Arglwydd
Dduw gallu a nerth
Mae'r Nefoedd a'r Ddaear yn llawn o'th ogoniant
Hosanna yn y goruchaf**

neu

[Litwrgïau hynafol, Datguddiad 4, 7]

**Sanctaid, sanctaid, sanctaid Dduw
Sy'n llunio ac yn cynnal,
Mae awyr a phridd yn cyhoeddi dy ogoniant.
Hosanna holl-dreiddiol**

**Bendigedig yw'r un
sy'n dod yn enw Duw
Hosanna holl-dreiddiol**

Dduw Sanctaidd,
trwy dy ras,
yma yng nghwmni gwerthfawr Crist,
down i mewn i undod creulon y groes;
rhyfeddod bywyd a wnaed yn newydd ac yn wahanol,
cawn ein hysbrydoli gan ei esgyniad i greadigaeth ehangach,
gan gymryd sylw o gerydd taer yr angylion [Actau 1:11]
i ail-lunio ar frys ein bywydau ar y Ddaear.

Gweddiwn y gall y bara hwn, drwy dy Ysbryd Glân,
ymgorffori Crist ynom;
a'r gwin hwn, ymgorffori gwaed Crist ynom.

Ac i ti, yr Un sanctaidd a thragwyddol,
Dad, Mab ac Ysbryd Glân,
(*Dduw, Cariad, Anadl Bywyd*)
rhoddwn fawl a gogoniant, nawr a hyd y Diwedd.

Amen.

neu

[Diolchgarwch](#)

Duw fo gyda chwi

A chyda thithau

Dyrchafwch eich calonnau

Fe'u dyrchafwn i Dduw

Gadewch inni ddiolch i'r Arglwydd ein Duw

Mae'n iawn i ni roi ein diolch a'n mawl

Diolch i ti, Dduw, am ein lle a'n diben
fel creaduriaid y pridd a phartneriaid gyda chreaduriaid y Ddaear.
Drwy'r oesoedd, wrth i fynyddoedd ddawnsio a choed gymeradwyo
Clywn yr alwad i ymuno â'th foliant.

O'n cychwyn,
Gwaeddodd y ddaear wrth weld tywallt gwaed
gan ddwyn baich niwed dynol.

Ceisiodd dy bobl wlad o laeth a mêl
Ond trwy anghyfiawnder fe ddadfeiliodd.

Dy broffwydi: galwodd offeiriad a ffermwyr
hwy i gyfrif.

Ac eto, bryd hynny fel yn awr,
yn aml syrthiodd wrth ymyl y ffordd
fu hanes dy arwyddion rhybudd,
dy eiriau a'th weithredoedd.

Yna Crist Iesu, ffrind i fywyd gwyllt,
yn siarad â'r moroedd
yn addysgu drwy goed,
Yn dangos gwylltineb hael Duw
yn y gwynt a'i huodledd yn y tywydd.

Yn Iesu siaradaist am rannu;
am gyfiawnder fel cydnabyddiaeth o angen,
Dangosaist gost iacháu
a phris y gwirionedd
nad yw'r pwerus am ei groesawu.

Bellach wedi atgyfodi, mae Crist gyda ni
wrth ofalu am fyd sydd wedi'i ddifwyno.

Ac mae'n ein bwydo, ein gwahodd, ein hysbrydoli
yn gyfeillion a brodyr a chwiorydd gyda Christ ei hun
Drwy fwyd a ffydd.

Yn y Swper Olaf a rannodd gyda ffrindiau
cyn ei lofruddio
rhoddodd Iesu iddynt fwyd a diod,
crawd a gwaed, bara a gwin.

Wrth ddathlu Eglwys y gorffennol a'r presennol,
ledled y Ddaear,
Lle mae Duw,
yma ac yn awr:

Fe ddywedwn.

**Sanctaidd, sanctaidd, sanctaidd,
Dduw grym a newid
Mae'r cyfan a wnei yn llawn gogoniant,
Hosanna, yr holl gread!**

**Bendigedig yw'r un sy'n dod
yn enw Duw
Hosanna, yr holl gread!**

[Gweddi i'r Ysbryd](#)

Chwytha, anadl bywyd
ar gnawd a gwaed, ar fara a gwin.
Gwna ni, wrth rannu'r pethau da hyn
yn greaduriaid sy'n rhannu'n fwy cyflawn yn dy Ddaear.

Torri'r Bara

Cymerodd ein cyfaill Iesu, ar y noson pan gafodd ei fradychu,
fara ac wedi iddo roi diolch,
fe'i torrodd a dweud,
'Dyma fy nghorff sydd ar eich cyfer chi.
Gwnewch hyn i gofio amdanaf.'

Yn yr un modd fe gymerodd y cwpan, gan ddweud
'Y cwpan hwn yw'r berthynas newydd gyda Duw yn fy ngwaed i.
Gwnewch hyn, bob tro yr yfwch ef,
i gofio amdanaf.'

Iesu, Oen Duw

rwyt ti'n cymryd ymaith

yr hyn sy'n wirioneddol niweidio'r Ddaear:

bydd drugarog wrthym, sy'n gwneud hynny.

Rhannu'r Bara a'r Gwin

Cymerwch, bwytewch – corff Crist
a dorwyd er eich mwyn.

Y cwpan hwn yw'r cyfamod newydd yng ngwaed Crist,
wedi'i dywallt drosoch chi a thros lawer
er maddeuant pechodau: yfwch ohono, bob un ohonoch.

Y Datgeiniad

Efallai na fyddwn yn deall
sut y mae Duw ar waith yng nghythrwl y byd,
ond yn hyn rydym yn ymddiried, sef

Bu farw Crist.
Atgyfododd Crist.
Daw Crist yn ôl drachefn.

neu

Claddwyd Crist
Mae Crist yn bresennol
Bydd Crist yn ein cynnal hyd byth.

Gweddïau ar ôl y Cymundeb

Dduw graslon,
wrth i ni lunio ein bywydau mewn partneriaeth
gyda Christ sy'n bwydo ac yn cynnal,
adnewyddda ein gobaith a'n penderfyniad
i wasanaethu a dathlu
gyda thaerineb a gobaith

Mae nerth y grawn a fu farw *[Ioan 12:24]*

wedi ein maethu â bywyd

Mae'r goeden y cafodd ein ffrind ei grogi arni
[Actau 5:30, Deuteronomium 21:22-23]

wedi rhoi ffrwythau llawenydd

Drwy heulwen a thrwy law, mae'r winwydden *[Ioan 15]*

wedi rhoi ffyniant ar bob cangen

Felly rydym yn perthyn,
gyda'th eglwys gyfan, cyn, wedyn ac yn awr

Dy deulu *-[Effesiaid 3:15]*

Rhodd pob creadur. *[Marc 16:15]*

trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Y Tangnefedd [yma neu'n gynharach]

Boed i dangnefedd Iesu Grist
fod gyda chi oll.

Tangnefedd Crist, ledled y Ddaear.

Emyn neu gân

Gollwng a bendithio

Codwch, ewch ar eich ffordd!

[Luc 17:19]

Mae ffydd yn ein gwneud ni'n addas i iacháu!

[Mathew 10:8]

Bellach mae angen i'r byd wybod

Sut mae Crist yn gnawd i bawb

[Ioan 1:14]

Gan ein bod yn greaduriaid cariad Duw:

[1 Ioan 1]

troediwn yn ysgafn, gyda llawenydd

Ymddiriedwch yn Nuw, dysgwch gan y Ddaear

[Job 12:8]

Rydym yn croesawu bywyd, lle deawn o hyd i gartref!

neu

Byddwn yn plannu coed

A byddant yn gofalu amdanom

Byddwn yn aredig cwysi

A pheidio ag edrych yn ôl

Byddwn yn dyner

A byddwn yn gyfrwys

Byddwn yn gwneud ein rhan

Fel y gall y byd newid ei rawd

Ac felly

Boed i ras ein Arglwydd Iesu Grist,

a chariad Duw

a chymdeithas yr Ysbryd Glân

Fod gyda ni oll, hyd byth.

[2 Corinthiaid 13:14]

Amen

neu

Pan ddaw'r diwrnod hwn i ben, boed i chi gael gorffwys a lluniaeth.

Pan fyddwch yn cysgu, boed i chi freuddwydio, a chymryd sylw o angylion

Pan fyddwch yn deffro, boed i chi ganfod doethineb ffordd wahanol

Boed i chi, wrth deithio, droedio'n garedig ar y llwybr byw

ac ymddiried eich cyrchfan i Dduw,

fel y gallwch neilltuo eich byw i'r Newyddion Da

ar gyfer pob creadur trwy fendith Duw, y Crist, anadl bywyd.

Amen

Gadael

Os oes ymrwymiad wedi'i wneud, neu ddogfen wedi'i llofnodi, yna caiff ei ddwyn allan o'r gysegrfa ar-lein neu wyneb yn wyneb gyda'r Ysgrythurau, neu gellir dilyn arferiad tebyg.
